**5.** Peth braf yw breuddwydio
Cytgan
Peth braf yw breuddwydio
Cau llygaid yn dynn
Dychmygu fy mywyd
Ymhell o'r fan hyn.
Rhywdro yn rhywle
Ni wn i pa bryd
Mi welaf fy hunan
Yn hapus fy myd.

R'un daten i'w phlicio
R'un sosban i'w lanhau
R'un siwmper i'w wnïo
A byth yn cael y bai.
Cytgan

Mae bywyd mor unig
A'r ty ma'n waeth na chell
Cael dianc o dlodi
Dyheu am fywyd gwell

Cael syrthio mewn cariad
A chwmni llon bob dydd
Atgofion mor hapus
A bywyd - o mor rhydd